# PROSES CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH GWYNEDD

Mae'r broses o gynhyrchu CGB Lleol ar gyfer Gwynedd wedi ei hamlinellu yn rhan 3: Datblygu CGB Lleol Gwynedd. Rhagor o fanylion isod.

**Prif ddigwyddiadau:**

| | | |
|---|---|---|
| 1999 | Ionawr | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru wedi eu comisiynu i gynhyrchu Archwiliad Cynefinoedd ar gyfer Gwynedd a chanfod Safleoedd Bywyd Gwyllt posibl. |
| | Ebrill | Cyngor Gwynedd yn penodi Swyddog Bioamrywiaeth ar gontract 3 blynedd |
| | Mehefin | Cwblhau'r Archwiliad Cynefinoedd a chanfod dros 1,500 o Safleoedd Bywyd Gwyllt arfaethedig. |
| | Gorffennaf | Cynhyrchu taflen a phosteri arddangos ar Fioamrywiaeth ar gyfer sioeau/digwyddiadau lleol |
| | Gorffennaf / Medi | Taith o amgylch sioeau a digwyddiadau amaeth lleol |
| | Awst | Diwrnod hyfforddi ar lygod y dŵr ar gyfer gwirfoddolwyr |
| | Tachwedd | Cynnal seminar bioamrywiaeth i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â CGB Gwynedd |
| 2000 | Ionawr | Sefydlu Grŵp Cyhoeddusrwydd Gogledd-Orllewin Cymru gyda Awdurdodau Lleol cyfagos i gynhyrchu erthyglau ar fioamrywiaeth. |
| | Ebrill | Cynhyrchu taflenni gwybodaeth ar lygod y dŵr; posteri a chardiau cofnodi ar rhywogaethau blaenoriaeth yn cael eu cynhyrchu ar gyfer sioeau a digwyddiadau lleol. |
| | Mai | Cwblhau'r wefan Bioamrywiaeth |
| | Mehefin | 2il seminar bioamrywiaeth i sefydlu Gweithgorau 'thema' a Grŵp Llywio CGBG |
| | Gorffennaf | Diwrnod hyfforddi ar lygod y dŵr ar gyfer gwirfoddolwyr |
| | Gorffennaf / Medi | Taith o amgylch sioeau a digwyddiadau amaethyddol lleol |
| | Medi | Cyfarfod cyntaf o Grŵp Llywio Bioamrywiaeth Gwynedd |
| | Tachwedd | Ail gyfarfod o Grŵp Llywio Bioamrywiaeth Gwynedd |
| | Tachwedd | Dechrau Uned 1 o Archwiliad Rhywogaethau Gwynedd (dan gontract) |
| | Rhagfyr | Gweithdy Rhywogaethau (Gweithgorau rhywogaethau wedi eu sefydlu yn eithaf da)<br>Penodi awduron ar gyfer y mwyafrif o CGC a CGR Gwynedd a pharatoi cynlluniau |
| 2001 | Ionawr / Chwefror | Anfon y CGC a'r CGR wedi eu cwblhau ymlaen at yr 'arbenigwyr' am sylwadau |
| | Chwefror | Gwirfoddolwyr, awduron ac 'arbenigwyr' yn rhannol-gwblhau Unedau 2 & 3 o o Archwiliad Rhywogaethau Gwynedd |
| | Mawrth | Cyflwyno adroddiad ar y broses o gynhyrchu CGB Gwynedd i Bwyllgor Amgylchedd Cyngor Gwynedd |
| | Ebrill | Penodi Swyddog Bioamrywiaeth newydd llawn amser dros gyfnod mamolaeth |
| | Mehefin | Drafft Cyn-ymgynghori o CGB Gwynedd yn cael ei ryddhau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. |
| | Mehefin/Gorffennaf | Fel rhan o'r prosiect Bioamrywiaeth Iard Gefn cenedlaethol, ac mewn partneriaeth efo APCE, ymweld ag 11 ysgol yng Ngwynedd. |

CGB = Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, CGBG = Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Gwynedd,
CG = Cyngor Gwynedd, APCE = Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

**Prif ddigwyddiadau - parhad:**

| | | |
|---|---|---|
| 2001 | Medi | Sefydlu Grŵp Tylluan Wen gyda Cymdeithas Adar Hela a Chadwraeth Y Foryd er mwyn gosod bocsys i dylluanod gwyn a chodi ymwybyddiaeth ymysg ffermwyr. |
| | | Cyfarfod cyffredinol o'r Gweithgorau 'thema' yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y CGBLl draft, a ddaeth i'r casgliad fod angen gwneud lot o waith golygu. |
| | Hydref | Swydd Swyddog Bioamrywiaeth CG yn cael ei rhannu gan ddau Swyddog. Mewn cydweithrediad efo'r fenter Great Nut Hunt genedlaethol, cynnal diwrnod hyfforddi lleol ar gyfer gwirfoddolwyr ar arolygu'r pathew yng Ngwynedd. |
| | Tachwedd | Cychwyn y broses o olygu pob CGR a CGC yn dilyn yr ymgynghoriad. |
| | Rhagfyr | Un Swyddog Bioamrywiaeth rhan-amser yn gadael CG i fynd i swydd llawn amser mewn man arall, gan adael swydd wag rhan-amser. |
| 2002 | Chwefror | Anfon y CGR i'w cyfieithu. |
| | Mawrth | Anfon yr CGC i'w cyfieithu. |
| | Ebrill | Ailwampio rhagarweiniad y CGB Lleol |
| | Mai | Ymrwymiad i bob cam gweithredu yn cael ei gadarnhau gan bartneriaid arweiniol a chytuno ar darged. Cyfieithu wedi ei gwblhau a'r gwaith prawfddarllen yn dechrau. |
| | Medi | Cyflwyno'r CGBG diwygiedig i is-bwyllgor yr Amgylchedd CG |
| | Medi | Cyflwyno'r CGBG diwygiedig i fwrdd CG |
| | Tachwedd – Chwefror | Ymgynghoriad cyhoeddus ar CGB Gwynedd |
| 2003 | Rhagfyr - Ionawr | Newidiadau staff yn Nhîm Bioamrywiaeth CG. Penodi Swyddog Bioamrywiaeth newydd llawn amser. |
| | Chwefror - ymlaen | Golygu ac ailfformatio CGB Gwynedd, gan ymgorffori sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Ymgynghoriad yn parhau efo partneriaid allweddol. |
| | Mai | Cyfarfod cyntaf o'r grŵp llywio wedi ei ailwampio. |
| | Mai | Diwrnod hyfforddi arolwg llygod y dŵr ar gyfer gwirfoddolwyr, mewn cydweithrediad efo APCE |
| | Mai - Medi | Presennol mewn sioeau Amaethyddol a digwyddiadau amrywiol. |
| | Mehefin | Fel rhan o Wythnos Bioamrywiaeth Cymru, trefnu Diwrnod Hela Chwilerod efo'r Ymddiriedolaeth Siarcod a Cadwch Cymru'n Daclus yng Nghanolfan Hamdden Pwllheli, a chynnal sesiwn Gwylio LLamidyddion yn Uwchmynydd. |
| | Haf | Cyfieithu rhan gyntaf y CGBG |
| | | Paratoi nifer o fersiynau "gloyw" o'r cynlluniau gweithredu rhywogaethau a chynefinoedd. |
| | Hydref | Cyflwyno'r CGBG diwygiedig i is-bwyllgor yr Amgylchedd CG |
| | | Cyflwyno'r CGBG diwygiedig i fwrdd CG |
| | | Ail gyfarfod o'r grŵp llywio wedi ei ailwampio |
| | | Lansio rhan gyntaf y CGBG diwygiedig, gan gynnwys rhan ragarweiniol a detholiad o Gynlluniau Gweithredu, a thudalennau gloyw. |
| | | Codi ymwybyddiaeth o'r CGBG yn parhau |
| | | Golygu a pharatoi Cynlluniau Gweithredu ychwanegol yn parhau |
| | | Gweithredu yn dechrau |

Fersiwn 1, 2004

CGB = Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, CGBG = Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Gwynedd,
CG = Cyngor Gwynedd, APCE = Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.